OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 629 (Cy.87)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Chwefror 2012* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *2 Mawrth 2012* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Mawrth 2012* |

Ymddengys i Weinidogion Cymru bod adran 28 o Ddeddf Gwella'r Fenni 1854(**1**), sef darpariaeth statudol leol at ddibenion adrannau 57 a 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(**2**), bellach yn anarferedig ac yn ddianghenraid ac wedi ei disodli'n helaeth gan Ddeddf Bwyd 1984(**3**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**4**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Gwella'r Fenni 1854 (Diddymu) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2012.

### Diddymu

**2.** Mae adran 28 (y comisiynwyr yn cael ffurfio ac adeiladu marchnad wartheg a lladd-dai) o Ddeddf Gwella'r Fenni 1854 ("Deddf 1854") wedi ei diddymu (gan gynnwys y graddau y mae adran 26 (ymgorffori Deddf Cymalau Marchnadoedd a Ffeiriau 1847(**5**)) o Ddeddf 1854 yn cael effaith mewn perthynas ag adran 28).

(**1**) 1854 p.xlix. Diwygiwyd Deddf 1854 gan Ddeddf Gwella'r Fenni 1860 (p. xxxvii).
(**2**) 1994 p.19.
(**3**) 1984 p.30. *Gweler* adrannau 50 a 53.
(**4**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).
(**5**) 1847 p.14.

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

28 Chwefror 2012

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu adran 28 o Ddeddf Gwella'r Fenni 1854 (p.49) ("Deddf 1854") ac mae'n dod i rym ar 26 Mawrth 2012.

Mae Deddf 1854 i'w darllen ar y cyd â Deddf Gwella'r Fenni 1860 (p.137) a Deddf Gwella'r Fenni 1871 (p.92) (gweler adran 2 o'r Ddeddf olaf).

Rhoddodd adran 28 o Ddeddf 1854 swyddogaethau i'r rhai a oedd yn Gomisiynwyr y Fenni ar yr adeg honno i adeiladu marchnad wartheg a lladd-dai o fewn ardal a ddiffiniwyd yn y Fenni ac i gasglu tollau. Mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Gyngor Sir Fynwy.

Mae adran 26 o Ddeddf 1854 yn ymgorffori mwyafrif darpariaethau Deddf Cymalau Marchnadoedd a Ffeiriau 1847 (p.14) ac mae amryw o'r darpariaethau hynny yn cael effaith mewn perthynas ag adran 28 o Ddeddf 1854.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu adran 28 o Ddeddf 1854 gan gynnwys y graddau y mae adran 26 o Ddeddf 1854 yn effeithio ar adran 28.

Y sail dros wneud y Gorchymyn yw bod y ddarpariaeth a ddiddymwyd yn anarferedig, yn ddianghenraid ac wedi ei disodli. Mae Deddf Bwyd 1984 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â sefydlu a gweithredu marchnadoedd da byw ac mae'n gymwys i gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, barnwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol ynghylch y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.